Guide Dogs Cymru

Dysgwch gyda Guide Dogs

# Sut mae cŵn tywys yn cael eu hyfforddi?






## Nod

Edrych ar yr hyfforddiant sydd ei angen i helpu ci bach i ddatblygu'n gi tywys, gan gynnwys rôl staff arbenigol a gwirfoddolwyr. Dysgu am y gwahanol fridiau sy'n gwneud cŵn tywys ardderchog a'r sgiliau y mae angen i gi tywys eu dysgu er mwyn iddo allu newid bywyd person sydd â cholled golwg.

### Amcanion

- I ddechrau – fideo Angharad a Sarah
- Cardiau hyfforddi cychwynnol
- Gweithgaredd – cais Guide Dogs
- I gloi – edrych yn ôl a thrafod
- Gweithgaredd – taflen grŵp
- Gweithgaredd – taflen dysgwr

# I ddechrau

Argraffwch a thorrwch 1 set o gardiau gweithgarwch

Chwaraewch fideo Angharad a Sarah

Y grŵp cyfan i drefnu'r cardiau gweithgarwch



Eglurwch i'r grŵp fod yr elusen Guide Dogs yn bridio ac yn hyfforddi mwy o gŵn nag unrhyw sefydliad arall yn y byd. Bob blwyddyn maen nhw'n gofalu am fwy na 7,000 o gŵn – gan gynnwys cŵn bach, cŵn dan hyfforddiant a chŵn tywys cymwys!

## Chwaraewch y fideo i weld Angharad yn ein cyflwyno ni i'w chi tywys, Sarah.

Mae Angharad yn esbonio sut mae Sarah yn ei helpu i fyw'r bywyd mae hi'n ei ddewis ac yn trafod y camau hyfforddi, o'r ci bach i bartneriaeth. Mae'r sgiliau y mae Sarah yn eu dangos wrth dywys Angharad yn cael eu rhannu fesul cam a'u dangos yn cael eu dysgu gan gi tywys wrth hyfforddi.

**Trafodwch: pryd ddywedodd Angharad wrthym ni ei bod yn iawn a ddim yn iawn dweud helo wrth gi tywys? Pam?**



## Gweithiwch fel grŵp cyfan i roi'r cardiau gweithgarwch mewn trefn gyda chamau'r siwrnai hyfforddi.

Gofynnwch i chwe pherson ifanc ddod ymlaen a chymryd un cerdyn ar hap yr un i'w ddarllen i weddill y grŵp. Gyda help y grŵp cyfan, a chofio gwybodaeth o'r fideo, dylai'r chwe pherson yma roi eu hunain yn nhrefn llinell amser ci tywys, o enedigaeth i ymddeoliad.

**Trefn gywir = C, F, D, B, A, E.**



# Gweithgaredd

Argraffwch y daflen grŵp

Argraffwch y daflen dysgwr

Beiros a phensiliau ar gyfer ysgrifennu a thynnu llun

## Cais Guide Dogs!


**Gofynnwch i'r person ifanc ddewis un o'r bridiau cŵn tywys oddi ar y daflen grŵp 'Ein bridiau'.**

**Gofynnwch iddo ddychmygu mai ef yw'r ci yma a bod angen iddo gwblhau ei daflen dysgwr 'Cais i fod yn gi tywys'.**

**Mae cyfle iddo ysgrifennu gwybodaeth amdano'i hun fel y ci yma ac egluro pam y dylid ei ystyried ar gyfer y rôl bwysig.**

Er enghraifft, efallai ei fod yn dysgu sgiliau newydd yn gyflym; yn gwneud unrhyw beth am fwyd; yn gweithio'n dda mewn tîm; yn glyfar iawn; ac yn hyderus ar bob math o drafnidiaeth, ac ati. Drwy'r gweithgaredd yma, gall pobl ifanc ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am fridiau, sgiliau a hyfforddiant ci tywys.



# I gloi

Trafod enwi
ci tywys




## Enwi cŵn tywys

**Rhoddir eu henwau i gŵn tywys yng Nghanolfan Genedlaethol y Guide Dogs cyn iddyn nhw fynd i fyw gyda Magwr Cŵn Bach gwirfoddol.**

Mae'r enwau'n cael eu dewis am amrywiaeth o resymau:

- Bydd rhai wedi cael eu dewis gan godwyr arian drwy'r cynllun 'Enwi Ci Bach'.
- Efallai y bydd gan rai thema sy'n cysylltu â digwyddiad cyfredol fel y Nadolig – er enghraifft, Pwdin, Marley neu Sbrowt. Gall y rhain fod ar gael i'w noddi gan y cyhoedd i helpu i godi arian hanfodol, sydd hefyd yn galluogi pobl i rannu siwrnai'r ci bach mewn partneriaeth drwy ddiweddariadau rheolaidd.
- Bydd eraill yn cael eu dewis fel bod enw pob ci bach yn y torllwyth yn dechrau gyda'r un llythyren yn yr wyddor. Gall hyn fod ychydig yn anodd gyda rhai llythrennau – dychmygwch dorllwyth o gŵn bach i gyd angen enw sy'n dechrau gyda Z!

**Trafodwch yn y grŵp beth fyddai'n enw da ar gi tywys.**



Yn ddelfrydol bydd yr enwau fydd yn cael eu hawgrymu'n ddwy sillaf ac ni fydd posib iddyn nhw odli gyda gorchmynion hyfforddi, e.e., dim 'Lizzie' gan ei fod yn odli hefo 'busy' ar gyfer y gorchymyn toiled neu 'Kit' gan ei fod yn odli hefo 'sit'. Mae'n rhaid i ni hefyd feddwl am sut bydd hyfforddwyr a pherchnogion yn y dyfodol yn teimlo wrth weiddi unrhyw awgrymiadau anarferol neu greadigol!

The Guide Dogs for the Blind Association is a company limited by guarantee and a registered charity in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334). B312g 01/25

Guide Dogs Cymru

# **Cardiau gweithgarwch cychwynnol:** camau hyfforddi ci tywys

**Taflen grŵp**

**Helo fyd – mae rhai cŵn bach pwysig iawn wedi cael eu geni!** Mae mam a dad yn glyfar iawn ac yn iach: rydyn ni gŵn bach wedi cael ein geni i dywys. Mae mam yn byw gyda gwirfoddolwr ac rydyn ni'n aros yn ei chartref clyd hi am tua 7 wythnos.



cerdyn C

**Yn 7 wythnos oed, mae'n amser ar gyfer y cam nesaf.** Rydw i'n mynd gyda fy mrodyr a fy chwiorydd i Ganolfan Genedlaethol y Guide Dogs ar gyfer archwiliadau iechyd pwysig. Rydw i'n gyffrous am fod yn gi tywys oherwydd rydw i wrth fy modd yn bod yng nghwmni pobl.




cerdyn F

**Yn 8 wythnos oed, rydw i'n mynd i fyw at Fagwr Cŵn Bach gwirfoddol.** Mae'n mynd i ddosbarthiadau cŵn bach hefo fi ac yn mynd â fi allan yn y car ac ar fysiau a threnau hyd yn oed. Rydw i wrth fy modd yn dysgu ... yn enwedig gyda'r holl wobrwyon! Gwyliwch fi yn 'eistedd'.



cerdyn D

**Pan rydw i'n troi'n flwydd oed, rydw i'n dechrau mynd i'r ysgol fawr.** Rydw i'n dysgu 37 o sgiliau gwahanol gyda Hyfforddwr Cŵn Tywys, fel sut i dywys rhywun o amgylch rhwystrau. Rydw i mor falch o fod yn fy harnais hyfforddi brown!



cerdyn B

**Rydw i wedi cael fy mharu!** Mae Arbenigwr Symudedd gyda'r elusen Guide Dogs wedi dewis rhywun sy'n cerdded ar yr un cyflymder â fi, sydd â chartref sy'n addas i mi, ac sydd angen ci ar gyfer llwybrau rydw i'n dda am eu dilyn. Rydyn ni'n mynd i hyfforddiant dosbarth i ddysgu sut i fod yn dîm ac wedyn, yn gwisgo fy harnais gwyn, rydw i'n gi tywys hapus sy'n newid bywyd.



cerdyn A

**Mae fy ngwaith i wedi gorffen.** Mae'r rhan fwyaf o gŵn tywys yn gweithio am tua 8 mlynedd, ond mae'r penderfyniad ynghylch pryd i ymddeol yn wahanol i bob ci. Mae fy mhartner i a minnau wedi gofalu am ein gilydd ers amser hir: nawr rydw i'n cael ymddeoliad hapus fel anifail anwes pwysig iawn.



cerdyn E

Taflen grŵp

# Ein bridiau

Beth sy'n gwneud ci tywys gwych? Mae'n fwy na dim ond hyfforddiant arbenigol. Rydyn ni'n dewis bridiau neu fathau o gŵn sydd â'r personoliaethau cywir hefyd. Mae gan bob brîd eu rhinweddau arbennig eu hunain a fydd yn eu gwneud yn berffaith i rywun.


## Labrador



Rydw i'n egnïol, yn chwareus ac yn gryf, ac rydw i wrth fy modd hefo bwyd a dysgu felly rydw i'n hawdd fy hyfforddi! Gallaf fod yn ddu, yn felyn neu'n lliw siocled. Rydw i'n gyfeillgar iawn, felly mae angen i bobl fod yn ofalus i beidio â thynnu fy sylw i.

## Golden retriever

Rydw i'n dawel, yn dyner ac yn ddigon tal i dywys person ond hefyd yn ddigon bach i ffitio o dan fwrdd, coesau cadair neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rydw i wrth fy modd hefo bwyd a chwarae sy'n rhoi gwobrau hyfforddi gwych. Rydw i'n euraidd, yn union fel mae fy enw i'n ei ddweud, ac mae angen cribo fy mlew hir i bob dydd.



## German shepherd

Rydw i'n glyfar iawn, yn ffyddlon, yn ddewr ac yn athletig. Rydw i wrth fy modd yn cael tasg i'w gwneud! Fel ci tywys, rydw i'n gallu bod yn lliw du a melyn neu'n ddu i gyd. Rydw i'n dal felly rydw i'n gyfaill da i bobl dal. Rydw i'n hoffi bod gyda phobl felly dydw i ddim yn gallu cael fy ngadael ar fy mhen fy hun yn rhy hir.



## Croesfridiau Labrador a Golden retriever

Mae gan y rhan fwyaf o gŵn tywys, fel fi, riant Labrador a rhiant Golden retriever. Rydw i'n gallu bod naill ai'n felyn, gwyn neu ddu, gyda chôt fer neu hir. Rydw i bob amser wrth fy modd yn dysgu.



## Croesfridiau eraill

Labradoodle ydw i (pwdl wedi'i groesi gyda Labrador). Rydw i'n gallu bod â chyrls tynn neu gôt donnog ac yn gallu bod yn felyn, gwyn, du, arian neu'n gochlyd gyda streipiau duon! Oherwydd fy mlew, rydw i'n gallu bod yn well i bobl sydd ag alergedd i ffwr. Yn ogystal â Labradoodles fel fi, mae'r elusen Guide Dogs yn defnyddio cŵn German shepherd wedi'u croesi gyda Golden retriever a chŵn Labrador wedi'u croesi gyda retrievers côt gyrliog.






German shepherds oedd y pedwar ci tywys cyntaf – Folly, Flash, Meta a Judy.

Guide Dogs Cymru



# Cais i fod yn gi tywys

Rydych chi wedi cwblhau eich hyfforddiant ac yn barod i fod yn gi tywys sy'n newid bywyd. Llenwch y ffurflen i helpu staff yr elusen Guide Dogs i ddod o hyd i'r partner perffaith i chi.

**Fy enw fel ci tywys**

______________________

**Fy oedran**
(awgrym – mae angen i chi fod dros 1 oed)

______________________

**Fy mrîd fel ci**

______________________

**Beth rydw i wedi'i ddysgu yn fy hyfforddiant**

______________________

______________________

______________________

Dyma fi

**Fy hoff fath o wobr wrth weithio**

______________________

______________________

**Pam fyddwn i'n gi tywys da**

______________________

______________________

**Fy mhartner perffaith**
(Awgrym – a fyddech chi'n bartner da i berson sydd â cholled golwg sy'n dal, rhywun sydd ag alergeddau, ac ati?)

______________________

______________________

______________________